# SL(5)749 - Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu targedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Mae adran 29 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 ganran benodedig yn is na'r waelodlin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 29 o Ddeddf 2016 trwy newid y ganran yn isadran (1). Effaith y diwygiad yw bod isafswm y ganran y mae rhaid i gyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 fod yn is na'r waelodlin wedi ei gynyddu o 80 y cant i 100 y cant.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o bedwar offeryn y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021.

## Gweithdrefn
Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r rhaglith Saesneg yn cyfeirio at ddrafft o'r rheoliadau fel a ganlyn: "laid before and approved by a resolution of *the* Senedd Cymru." [*ychwanegwyd pwyslais*]. Mae'n ymddangos mai gwall yw cynnwys y fannod, gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfeirio at "Senedd Cymru" drwyddi draw, heb "the" o flaen yr enw.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Chwefror 2021**